



# Gwers 22

## Y Gaethglud



Cyfres Stori Duw

1 Cronicl 36: 1–23, Jeremeia 39: 1–10 . . . . .

### Nod:

Gweld beth yw canlyniad anufuddhau i Dduw drosodd a throsodd.

### Adnodau:

1 Cronicl 36: 1–23, Jeremeia 39: 1–10

### Cefndir:

Rydym yn ymuno â'r hanes ar ôl i'r brenin Joseia, y brenin diwethaf i wneud yr hyn oedd dda yng ngolwg yr Arglwydd, gael ei ladd. Wedi hynny daeth nifer o feibion Joseia yn frenhinoedd ar Jwda ond nid oeddent yn gwrando ar Dduw, nac yn gwneud fel yr oedd ef yn gofyn. O ganlyniad i'w hanufudd-dod hwy, a gweddill Jwda, anfonodd Duw yr Eifftiaid ac yna'r Babiloniaid i drechu'r wlad. Cafodd nifer fawr eu lladd ac eraill eu caethgludo, yn groes i'w hewyllys, i Fabilon.

Y tro cyntaf i Nebuchadnesar (Brenin Babilon) drechu Jwda a'i brenin, Jehoiachim, pennodd Nebuchadnesar Sedeceia yn frenin yn ei le. Cytunodd Sedeceia o flaen Duw i ufuddhau i Nebuchadnesar. Ond ni wrandawodd ar Dduw, er iddo geisio anfon llawer o negeseuon ato a'i rybuddio. Roedd yn gwneud pethau drwg, a hynny yn nhŷ Dduw, ac felly ar ôl 9 mlynedd daeth Nebuchadnesar yn ôl a chipio Jerwsalem unwaith eto, mewn ffordd erchyll iawn.

Er hynny, gwelwn ar ddiwedd 2 Cronicl 36 fod yna obaith eto, ac nad yw Duw yn anghofio'i bobl. Rhannodd Israel yn ddwy ran; Israel a Jwda.

### Darllen yr adnodau:

Darllenwch 2 Cronicl 36:1–23 gan ofyn i bawb ddarllen un adnod yn eu tro o amgylch y dosbarth.

1. Beth mae'r darn yma'n ein dysgu am anufuddhau i Dduw drosodd a throsodd?

A oes yna unrhyw beth yn y darn sy'n rhoi gobaith i'r dyfodol?

2. Edrychwch ar y rhestr o frenhinoedd sy'n cael eu henwi ym mhennod 36. Gofynnwch i'r dosbarth fod yn 'dditectifs' i ganfod pwy oedd yn frenin am y cyfnod byrraf a'r hiraf. (Jehoahas – teyrnasodd am dri mis. Jehoiachim a Sedeceia – teyrnasant am un mlynedd ar ddeg.)

### Gweithgaredd:

Cadw'r Rheolau.

Gofynnwch i'r dosbarth sefyll mewn un rhes hir. Eglurwch y byddwch yn edrych ar bwysigrwydd cadw rheolau. Darllenwch restr o ddatganiadau – rheolau sy'n cael eu torri'n aml (gweler isod). Bob tro yr ydych yn darllen datganiad sy'n wir i un o'r disgyblion, mae'n rhaid i'r disgybl ddilyn y cyfarwyddyd, neu aros yn ei (h)unfan os nad yw'n wir. Un rheol sydd ar gyfer y gweithgaredd:

Mae'n rhaid i chi ateb yn onest!

### Datganiadau:

1. Os wyt ti wedi croesi'r ffordd pan mae'r dyn gwyrdd ar goch, symud 1 cam i'r dde.
2. Os wyt ti erioed wedi twyllo mewn chwaraeon, symud yn ôl 3 cham.
3. Os wyt ti erioed wedi twyllo yn un o'r gemau yn yr Ysgol Sul, symud 2 gam i'r dde.
4. Os wyt ti erioed wedi reidio beic yn y nos heb olau, symud yn ôl 2 gam ac 1 i'r dde.
5. Os wyt ti erioed wedi copïo gwaith cartref rhywun arall, symud 2 gam i'r dde a 2 ymlaen.
6. Os wyt ti erioed wedi anufuddhau i dy rieni, symud 3 cham i'r chwith a 4 yn ôl.
7. Os wyt ti erioed wedi torri rheol yn yr ysgol,

symud ymlaen 2 gam a 4 i'r chwith.

Erbyn hyn dylai fod anrhefn llwyr.

a/neu

'Dodgeball': dilynwch reolau arferol dodgeball (fe fydd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn gyfarwydd â'r gêm, felly peidiwch â phoeni'n ormodol os yw'r cyfarwyddiadau'n edrych yn gymhleth)

- 2 dîm, un bob ochr i linell yng nghanol yr ystafell [gallwch roi strïbed o dâp masgio ar y llawr i wneud llinell].
- 2 bêl, peli sy'n ddigon meddal i beidio â brifo os ydynt yn taro wyneb rhywun.
- Gosod y peli yn y canol, ar y llinell rhwng y ddau dîm.
- Yn ystod y gêm, ni fydd unrhyw aelod o'r tîm yn cael croesi'r llinell i ochr y tîm arall.
- Pwrpas y gêm yw taro aelod o'r tîm arall gyda'r bêl cyn iddi fownsio, ac unwaith mae rhywun yn cael ei daro â phêl maent allan.

Mae un gwahaniaeth yn y gêm hon i gêm arferol o 'dodgeball'. Mae'n bwysig eich bod yn mynd drwy'r rheolau ychwanegol hyn yn gyflym, unwaith. Pwynt y gêm yw na fyddant yn deall y rheolau a bod y gêm yn troi'n llanast. Y rheolau ychwanegol yw: pan fyddwch chi'n gweiddi 1, pawb i neidio ar un goes. Pan waeddwch 2 pawb i eistedd ar y llawr. Pan waeddwch 3 pawb i gario 'mlaen gyda'r gêm ond bod eu llaw dde'r tu ôl i'w cefn. Pan waeddwch 4 maent i wneud yr un peth ag un. Pan waeddwch 5 rhaid iddynt gario 'mlaen gyda'r gêm ond yn gafael mewn Beibl mewn un llaw.

Yn gynnar yn y gêm dylai popeth fod yn llanast llwyr.

Astudiaeth : Plethwch hyn i'r astudiaeth gan ddangos mai'r rheswm fod pobl Dduw mewn cymaint o lanast oedd eu bod wedi torri cymaint o'r rheolau oedd Duw wedi gosod er eu lles.

Nawr, edrychwch ar beth ddigwyddodd o ganlyniad i anufudd-dod y Brenin Sedeceia. Darllenwch Jeremeia 39: 1-10 i'r dosbarth (mae hwn yn anodd i'w ffeindio, felly cofiwch roi rhif tudalen), gan ddal i gadw bys yn 2 Cronicl 36.

Daeth Nebuchadnesar yn ôl i Jerwsalem a'i roi o dan warchae (seige) am 18 mis. Wedi iddo orchfygu'r ddinas, lladdodd feibion y brenin a'i

ddal yntau. Collodd Sedeceia ei lygaid a chael ei gaethgludo i Fabilon. Dinistriwyd Jerwsalem: muriau'r ddinas yn ogystal â'r plasdai, fe aethpwyd â'r bobl gyfoethog, y bobl oedd wedi cael addysg a'r crefftwyr yn ôl i Fabilon. Dim ond y bobl dlawd a adawyd ar ôl yno.

## Trafodaeth:

Gofynnwch sut byddai'r dosbarth yn teimlo pe bai gwlad arall yn dod i Gymru, yn lladd pobl ac yn mynd â hwy a holl bobl bwysig a chlyfar Cymru yn ôl gyda nhw mewn cadwyni? Dyma oedd y sefyllfa yn Jwda, roedd pethau erchyll yn digwydd yno. Roedd Duw wedi rhoi llawer o rybuddion iddynt ond nid oeddent wedi gwranddo arno.

Cyn gorffen trowch yn ôl i 2 Cronicl 36: 22-23 a'i ddarllen eto. Saith deg mlynedd yn ddiweddarach daeth Duw â'i bobl yn ôl i Jwda. Dangosodd Duw gariad at ei bobl er nad oeddent yn ei garu'n ôl –Gras yw'r enw am hyn.

Rydych wedi ystyried yn barod yr angen i'r lldewon fynd i ffwrdd i wlad bell, rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod y cwestiynau canlynol. Pe bai cael eich caethgludo i wlad estron yn digwydd i chi:

- Rydych yn cael mynd â 3 eitem gyda chi – beth fyddent?
- Rydych yn cael mynd ag un person gyda chi – pwy fyddai?
- Pwy fyddech yn troi ato/ati am gymorth?
- Beth fyddech yn ei golli fwyaf am gartref?
- Mewn sefyllfa fel hon, a fyddech yn hollol ddiobaith?

Gadewch i'r cwestiynau yma eich arwain at yr amser addoliad. Canmolwch unrhyw un sydd wedi nodi Beibl, gweddi, ffydd yn Nuw ayb fel ateb.

## Amser Addoli:

Gofynnwch i'r dosbarth am yr holl bethau da y mae Duw yn eu rhoi iddynt (e.e. teulu, iechyd, bwyd, addysg). Diolchwch amdanynt, a gofynnwch i Dduw ddangos y llwybr y mae am i'r dosbarth ei ddilyn yn eu bywydau, a'i ddilyn Ef yn well. Amen.